Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 29 Mawrth 2016

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, G. Parry, S. Edwards, G. C. Jones, Meirion Jones, A. Williams, Mervyn Jones,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	B. Jones, D. James, E. Parry, H. Huws, D. Williams,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Katherine Harper Williams - Ymgynghoriad Cymunedol (Hwb Cymunedol)**		
3.1	Ms Williams yn nodi bod Medrwn Môn wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Hwb Cymunedol yn y Pentref. Maent wedi derbyn caniatâd gan y Cyngor Sir i symud ymlaen ond angen rhestr o syniadau erbyn diwedd Ebrill 2016 ar le ac ar be i wario'r arian. Maent wedi ymgynghori yn y pentref ac wedi nodi'r Neuadd Goffa fel y lleoliad gorau i dderbyn gwariant i sefydlu'r Hwb. Nodwyd bod angen cadarnhau syniadau o fewn ryw bythefnos, ac amcan o wariant erbyn diwedd Ebrill. Cytunwyd i drefnu cyfarfod arbennig o aelodau'r Cyngor Bro i drafod syniadau ar 13 Ebrill 2016. A. Jones am baratoi rhestr o eitemau a syniadau erbyn y cyfarfod arbennig.	**A. Jones**	**13/04/16**
4.0	**Cyfrifon Mis Mawrth 2016**		
4.1	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd cyfrifon Mawrth fel rhai cywir.		
5.0	**Materion y Cyngor Sir**		
5.1	Meirion Jones yn nodi bod cais cynllunio'r Canolfan Zorb wedi'i ohirio tan Gyfarfod Pwyllgor Cynllunio Ebrill		
6.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 23 Chwefror 2016**		
6.1	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
7.0	**Materion yn codi**		
7.1	Twr Marcwis - A. Mummery yn nodi ei fod yn gobeithio cael diweddariad yn y gwanwyn.	**A. Mummery**	
7.2	Plac ar dy Kyffin Williams -Meirion Jones wedi derbyn llun o'r un sydd yn Llangefni, angen paratoi un eithaf tebyg. Meirion am baratoi templed, a nodi efalla bydd cyfle cynnig am grant ymddiriedolaeth Ynys Môn i'w ariannu.	**Meirion Jones**	**26/04/16**
7.3	Llwybr beicio - H. Huws yn cadarnhau fod gwaith ar y lon wedi gwneud ond dim y llwybr beicio. Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**26/04/16**
7.4	To fflat y Neuadd Goffa - A. Jones yn dal i ddisgwyl pris gan G. Pritchard	**A. Jones**	**26/04/16**
7.5	Llawr y siglenni maes chwarae - Andre wedi derbyn pris rhwng £6,000 a £8,000 i wneud y gwaith. Mae o edrych am brisiau eraill neu ateb gwahanol i'r broblem	**D. Owen**	**26/04/16**
7.6	Ty Station Pringles - Clerc wedi ysgrifennu at Pringles, dim ymateb wedi'i dderbyn hyd yn hyn. Clerc i ddilyn i fyny	**D. Owen**	**26/04/16**
7.7	Grant memorials fund - Clerc wedi cysylltu gyda Chlerc Cyngor Trewalchmai, nodwyd fod sawl ffynhonnell ariannu wedi'i ddefnyddio ganddyn, yn cynnwys, Ymddiriedolaeth Ynys Mon, Cymru'n Cofio, Heritage Lottery, War Memorials Fund, CADW a hel yn lleol. Nodwyd eu bod wedi derbyn Cyngor arbenigol ar y gwaith gan Smith of Derby. Cytunwyd i ofyn i Peter Llewelyn am gyngor ar y gwaith yn gyntaf.	**A. Jones**	**26/04/16**
7.8	Biniau Baw Ci - Meirion Jones i ddilyn i fyny gyda'r Cyngor Sir. Nodwyd bod gryn dipyn o faw ci o gwmpas y pentref.	**Meirion Jones**	**26/04/16**

7.9	Glanhau'r Neuadd Goffa - A. Jones yn nodi fod golwg mawr yn gegin y Neuadd Goffa dros y penwythnos. Cytunwyd bod angen glanhawr yno am ryw ddwy awr yr wythnos gan nad oes neb wrthi ar hyn o bryd. Cytunwyd i A. Mummery ofyn i Colin Roberts wneud am y tro.	**A. Mummery**	**26/04/16**
7.10	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - S. Edwards wedi siarad gyda B. Jones, nodi fod ffrindiau'r parc a'r gors dal yn bodoli. S. Edwards am dderbyn rhestr o grantiau ganddynt.	**S. Edwards**	**26/04/16**
7.11	Polisi Iaith y Cyngor Bro - Clerc i yrru copi o'r un presennol i'r aelodau, a'r mater i'w rhoi ar agenda Ebrill 2014 i drafod unrhyw newidiadau.	**D. Owen**	**26/04/16**
8.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 08 Mawrth 2016**		
8.1	Nodwyd fod y cyfarfod wedi ei ohirio gan nad oedd ddigon o aelodau yn bresennol		
9.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
9.1	Cyfarfod heb ei gynnal		
10.0	**Plotiau yn y Fynwent**		
10.1	G. Parry yn egluro beth ddigwyddodd gyda'r camddealltwriaeth gyda'r plotiau yn y fynwent yn ddiweddar. Cytunwyd i dderbyn yr argymhelliad o dalu'r ffioedd yn ôl i'r sawl sydd wedi'i effeithio gan y digwyddiad. Clerc i yrru cylchlythyr i'r rhai sydd wedi archebu plotiau.	**Clerc**	**26/04/16**
11.0	**Templed newydd i gofnodion y Cyngor Bro**		
11.1	Meryn Jones yn nodi fod gormod o amser yn cael ei dreulio yng nghyfarfodydd y Cyngor Bro yn ail drafod beth sydd wedi ei drafod a'i argymell gan Is-bwyllgorau. Cytunwyd i ddefnyddio rhai agweddau o'r templed sydd wedi'i yrru gan S. Edwards. Clerc i yrru'r cofnodion allan saith diwrnod a'r ôl y cyfarfod er mwyn galluogi pobl sydd â gweithred weithredu arnynt. Nodwyd hefyd dylid rhoi nodyn ar raglenni cyfarfodydd bod rhaid i aelodau yrru ei ymddiheuriadau os ni allant fynychu cyfarfodydd	**Clerc**	**Misol**
12.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
12.1	31C27H Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Bryn Eira, Lon Refail, Llanfairpwll - Dim sylwadau		
13.0	**Gohebiaeth**		
13.1	Cylchgrawn Clerks & Councils Direct - Derbyn y wybodaeth		
13.2	Llythyr John D. Roberts - Trefniant awdit 2015/16 - Clerc i gysylltu gydag Anwen Le Cras am gymorth gyda'r Awdit blynyddol	**D. Owen**	**26/04/16**
13.3	Un Llais Cymru - Cyfarfod Cyffredinol yn Neuadd y Sir 07/04/2016 am 7:00yh - G. C. Jones a H. Huws yn mynychu fel rheol	**G. C. Jones a H. Huws**	
13.4	Cyngor Sir - Rhybuddion am Etholiadau 05 Mai 2016 - Rhybudd i'w rhoi ar yr hysbysfwrdd	**D. Owen**	**29/03/16**
13.5	Mon CF - llythyr - Clerc i ymateb yn gofyn am eu ffioedd am eu gwaith	**D. Owen**	**36/04/16**
13.6	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
13.7	Cyngor Gwynedd - Cofrestr Newidiadau a Ffocws i'r Cynllun Adnau - Derbyn y wybodaeth		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Ebrill 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) ……Dyddiad **106**